OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 706 (Cy.109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*9 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 457(4)(b)(iii) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "Credyd Treth i Blant" a "Credyd Treth i Bobl sy'n Gweithio" yr ystyr a roddir i "*Child Tax Credit*" a "*Working Tax Credit*" yn Neddf Credydau Treth 2002(**3**);

ystyr "incwm blynyddol" ("*annual income*") yw'r incwm am y flwyddyn dreth wedi ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Credydau Treth (Diffinio a Chyfrifo Incwm) 2002(**4**); ac

ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Peidio â chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003(**5**).

(**1**) 1996 p.56. Disodlwyd adran 457(4)(b) gan adran 200 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002 a'u trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) 2002 p.16.
(**4**) O.S. 2002/2006, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/732, 2003/2815, 2004/2663, 2006/745, 2006/766, 2007/824, 2007/1305 a 2008/2169.
(**5**) O.S. 2003/860 (Cy.107).